

Datblygiad Mathemateg

Didoli, cyfatebu, trefn a chymharu. Defnyddio geirfa mathemategol. Cyfri, adnabod ffigyrau, cyfri yn ôl. Cyflwyno niwmicon/rhifau. Casglu data am hoff deganau. Creu graff a dadansoddi'r canlyniadau. Dosbarthu teganau mewn graff Venn. Dull tali. Llunio siapiau cymesur e.e calon chroes. Llunio robot o siâp 2D /3D. Rhoi a dilyn cyfarwyddiadau. Lleoliad. Defnyddio siapiau hecsagon. Datrys problemau. Faint yn fwy / llai. Gosod gwrthrychau mewn trefn o ran maint. Set o deganau. Ymarfer adnabod a defnyddio arian. Defnyddio Bi bot ar y lôn. Ysgrifennu cyfarwyddiadau i fynd o'r siop i'r banc. Mesur cychod. Pwysu – pa gwch yw'r trymaf?

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Trafod hoff degan. Cymharu dol a babi. Dosbarthu casgliad o deganau caled / meddal. cryf / gwan. Edrych ar hen dedi a thedis enwog fel Swperterd a Rupert the Bear. Edrych ar wahanol fathau o bypedau a phypedwyr. Trafod Dydd Mawrth Crempog. Cymharu crempogau ar draws y byd. Gemau Dewi Sant (Hwb). Edrych ar wahanol fathau o beli. Edrych ar wahanol fathau o lyfrau. Sut mae car yn gweithio? Gwthio a thynnu. Arnofio a suddo.

Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Trafod cynnwys gwahanol lyfrau. Creu llyfrau dosbarth. Llafar- beth gawsoch chi gan Siôn Corn. Ysgrifennu llythyr diolch iddo am y teganau. Trafod a disgrifio eich hoff degan. Pa fath o deganau oedd gan taid a nain? Gwrandu ar stori Santes Dwynwen. Trafod Swperterd a thedis eraill. Edrych ar jigso a llunio cyfarwyddiadau sut i chwarae jigso. Gwrandu ar hanes Dewi Sant a'r Pasg.

Teganau

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Dilyn ac adnabod rheolau dosbarth. Cyd-chwarae, cydweithio a rhannu. Trafod teimladau a geir yn stori Santes Dwynwen- cariad, siom, ofn, dychryn, unigrwydd. Trafod ystyr teimladau yn enwedig teimladau positif. Mynegi profiad personol o un teimlad positif. Stori Feiblaidd am Iesu yn yr anialwch gan drafod beth sydd yn dda neu'n ddrwg. Trafod stori Pinocio, beth ddigwyddodd iddo wrth ddweud celwydd. Pam ei bod hi'n bwysig dweud y gwir. Trafod dathlu Dydd Gŵyl Ddewi, traddodiadau Cymru.

Datblygiad Creadigol

Clapio enwau gwahanol fathau o deganau. Defnyddio offer taro. Llunio caneuon syml e.e Mae iPad yn sach Sion Corn! Beth sydd yn y bag teganau? Gwrandu ar gerddoriath o ffilm Pinocchio. Geirfa disgrifio cerddoriaeth – cryf, tawel, cyflym, araf. Defnyddio offer taro i gyfansoddi cerddoriaeth ar gyfer stori Santes Dwynwen. Ffurfio sgôr graffig. Dysgu caneuon ar y côf. Llunio cardiau Santes Dwynwen, Sul y Fam a'r Pasg. Gwneud pypedau amrywiol fel tedi, Pinocchio ac un o'u dewis eu hunain. Gwneud sioe bypedau.

Datblygiad Corfforol

Ymarfer newid a gwisgo i fynd i sesiwn ymarfer corff. Dangos bod rheolau'r dosbarth yn dal i fodoli mewn lle arall e.e. yn y neuadd / ar y cae. Symud mewn ffyrdd gwahanol, symud i gerddoriaeth. Dawns / drama - o hanes Siôn Corn yn teithio yn y sled. Defnyddio tâp "Symud gyda Tedi". Mynd o amgylch stensil o dedi, ei dorri a'i bwytho. Dychmygu bod yn arwr - Ymateb i stori gan athro. Sgiliau siswrn. Torri siapiau cymesur gyda siswrn. Symud fel doli, gwrandu ar gyfarwyddiadau. Efelychu symudiadau ffrind. Chwarae gyda doliau - molchi, sychu, brwsio gwallt. Symud fel pyped cortyn / robot. Edrych ar wahanol fathau o beli. Ymarfer sgiliau pêl. Symud fel gwahanol gymeriadau allan o lyfr e.e tywysoges, cawr, tylwyth teg.